Eich cyf/Your ref:
Ein cyf/Our ref: MA P KW 5599 19

David Jones OBE, DL
Cadeirydd Cymwysterau Cymru
Q2 Building, Pencarn Lane,
Casnewydd
NP10 8UH

Mawrth 2020

Annwyl David,

Llythyr cylch gwaith tymor Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymwysterau Cymru

Rwy'n ysgrifennu atoch i gadarnhau'r Dyraniad Grant i Gymwysterau Cymru ar gyfer 2020-21. Rhoddir y grant i alluogi Cymwysterau Cymru i gyflawni ei swyddogaethau fel y'u nodir yn Neddf Cymwysterau Cymru 2015.

Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn nodi sut y byddwn yn cefnogi pobl ifanc yng Nghymru i gyflawni eu potensial i'r eithaf. Yn rhinwedd ei swyddogaeth fel rheoleiddiwr annibynnol, mae Cymwysterau Cymru'n gwneud cyfraniad pwysig i'r gwaith o gyflawni rhaglen Llywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau bod gennym system gymwysterau gadarn, sy'n diwallu anghenion dysgwyr ac yn hybu hyder ymhlith y cyhoedd. Gwna hyn yn ogystal â'i waith presennol yn penderfynu ar y diwygiadau y mae angen eu gwneud i gymwysterau a'u cyflwyno, er mwyn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru.

Mae Adran 3 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru weithredu mewn ffordd sydd, ym marn y sefydliad, yn addas i'r diben o gyrraedd y nodau pennaf, sef sicrhau bod cymwysterau, a system gymwysterau Cymru, yn gweithio'n effeithlon i ddiwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru, a hybu hyder yn y cymwysterau a'r system ymhlith y cyhoedd. Mae'r ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru roi sylw dyledus i'r materion a restrir yn Adran 3(2) wrth fynd ati i ystyried beth sy'n briodol mewn perthynas â chyflawni'r nodau pennaf hynny.

Mae Adran 51 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru ddarparu cyngor a gwybodaeth i Weinidogion Cymru ar faterion yn ymwneud â chymwysterau a'r system gymwysterau; rwy'n rhagweld y bydd fy swyddogion yn ysgrifennu atoch yn ystod 2020-21 i ofyn am gyngor o'r fath.

Fel y gwyddoch, nid yw Llywodraeth Cymru yn pennu eich amcanion strategol gan fod Deddf 2015 yn rhoi mesur o annibyniaeth ichi fel y rheoleiddiwr annibynol. Fodd bynnag, mae rhaid ichi baratoi Adroddiad Blynyddol, y creffir arno gan y Senedd, yn ogystal â Chynllun Busnes sy'n cynnwys blaenoriaethau gweithredol y sefydliad am y flwyddyn i ddod.

Rydw i wedi ysgrifennu atoch ar wahân i nodi'r arian sydd ar gael ar gyfer 2020-21, sef blwyddyn olaf y tymor hwn o weithgarwch y Llywodraeth.

Gofynion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus yng Nghymru weithio'n unol â'r pum dull gweithredu a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Disgwylir ichi drafod gyda'ch tîm partneriaeth sut y mae Cymwysterau Cymru yn defnyddio'r pum dull gweithredu, ynghyd â'ch cyfraniad at gyrraedd y saith nod llesiant, a sut y bydd y dull gweithredu hwn yn datblygu o flwyddyn i flwyddyn.

Cyllid

Mae'r llythyr blynyddol ar gyfer cadarnhau cyllid yn nodi'r cyllid ar gyfer gweithgareddau'r flwyddyn 2020-21. Yn y dyfodol byddwch yn cael llythyr cylch gwaith ar gyfer tymor cyfan y Llywodraeth, ac yna'n cael llythyrau cyllid yn flynyddol. Pan fo modd, byddwch hefyd yn cael syniad bras o'r cyllid ar gyfer blynyddoedd i ddod.

Trefniadau Goruchwylio

Mae trefniadau goruchwylio ac adrodd yn ôl wedi'u pennu eisoes, fel y nodir yn y Cytundeb Fframwaith. Datblygwyd atodiad i'r Cytundeb Fframwaith hwn i adlewyrchu'r diwygiadau i ddull Llywodraeth Cymru o reoli cyrff a noddir. Mae'r gwaith o gytuno ar yr atodiad hwn yn mynd rhagddo.

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio dull seiliedig ar risg ar gyfer y broses o oruchwylio. Mae'n gweithio gyda chyrff cyhoeddus i nodi'r lefel o oruchwyliaeth sy'n briodol ar gyfer sefydliadau unigol. Bydd y tîm partneriaeth yn cynnal asesiadau rheolaidd o'r sicrwydd sydd ar gael iddynt. Hefyd, yn ystod y tymor llywodraethol hwn, byddant yn ystyried yn flynyddol yr angen am adolygiad pwrpasol o'r sefydliad.

Bydd y trefniadau hyn yn parhau mewn grym gydol oes y weinyddiaeth hon, ond cynhelir trafodaethau â chi os yw blaenoriaethau gweinidogion yn newid. Ar ddiwedd y tymor llywodraethol hwn, bydd y trefniadau a nodir yn y llythyr cylch gwaith hwn yn parhau hyd nes y disodlir nhw.

Dylid ystyried y llythyr hwn ar y cyd â'r Cytundeb Fframwaith.

Edrychaf ymlaen at gydweithio â chi yn ystod y flwyddyn i ddod.

Yn gywir,



Kirsty Williams AC / AM

Y Gweinidog Addysg
Minister for Education